Y Swyddfa Gymreig
Rhan II H407H705 WOED LH
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Tŷ Glas
Llanishen
Caerdydd CF4 5WE

Welsh Office
Phase II
Government Buildings
Tŷ Glas Road
Llanishen
Cardiff CF4 5WE

Telephone 0222 761456 (Switchboard) GTN code 1283
Ext:
Fax: GP2-0222 761249

Eich Cyf/Your ref

Ein Cyf/Our ref

Dyddiad/Date 7 May 1991

Dear Colleague

NATIONAL CURRICULUM: CONSULTATION ON PROPOSALS TO AMEND THE EDUCATION (NATIONAL CURRICULUM) (ATTAINMENT TARGETS AND PROGRAMMES OF STUDY IN HISTORY) (WALES) ORDER 1991

The Secretary of State for Wales has today published for consultation his proposals to amend the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in History) (Wales) Order 1991.

The proposals, which relate to the programme of study for Key Stage 3 in the Order, are detailed in the attached document and are published in accordance with the provisions of the 1988 Education Reform Act. This requires that consultations are held on the proposals, after which the Secretary of State will prepare a draft Order under Section 4(2)(a) and (b) of the Act. He hereby invites recipients of this letter to submit evidence and representations on the proposals.

In addition to the Curriculum Council for Wales the Secretary of State is also giving notice of his proposals to, and consulting with, a wide range of educational interests in Wales, including: the WJEC, LEAs, organisations representing teachers, parents, governors, and the institutes of further and higher education and of teacher training. Copies of the proposals are also being sent to all secondary schools in Wales. Although individual schools are not being statutorily consulted, the Secretary of State would welcome any comments that they or others wish to make.

All comments and responses to the consultation should be sent to Schools Curriculum Division, Welsh Office Education Department, Phase II, Government Buildings, Ty Glas Road, Llanishen, Cardiff, CF4 5WE to arrive no later than 10 June 1991.

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit

H407H705 WOED LH

It is the Department's normal practice to make available to the public, on request, copies of the respondents' submissions to consultative papers. However, if a respondent indicates that all or part of a reply should be excluded from this arrangement, the request for confidentiality will be respected.

This letter and the proposals document are being published simultaneously in Welsh. Further copies of the proposals are available on request from the Welsh Office Education Department.

Yours faithfully

L. L Chang Kee

MRS L L CHANG KEE

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit

FOREWORD

The document "History in the National Curriculum (Wales)" (ISBN 0 11 701607 1) published in March 1991, contains attainment targets and programmes of study in History which have statutory effect under the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in History) (Wales) Order 1991 (SI 1991/752). This Order is referred to as the "History Order" in the Secretary of State for Wales' proposals below.

The Education Reform Act 1988 empowers the Secretary of State for Wales to make an Order to amend the programmes of study in the above document. Before publishing a draft of the Order he is required to give notice of his proposals to the Curriculum Council for Wales and to any other persons with whom consultation appears to him to be desirable.

This document contains the Secretary of State's formal proposals for amending the Study Units entitled "Wales in Industrial Britain c1760 to c1960" (Unit 18) and "Europe and the world c1900 to c1960" (Unit 27) in the programme of study for History for pupils aged 11 to 14 (Key Stage 3).

Extracts from this document may be reproduced on condition that the source is acknowledged.

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit

THE PROPOSALS

1. In response to comments and advice received during consultations on the draft of the History Order I made changes to Study Units 18 and 27 to include a British and European dimension of twentieth century history into Key Stage 3. In April I also invited the ex-Chairman of the History Committee for Wales, Professor R R Davies, to form a small working party of ex-members to consider the structure of Unit 27 in comparison with that for Units 16 to 18. The Working Party were also invited to consider the links between Units 18 and 27.

2. The Working Party concluded that the structure of Unit 27 needed to be strengthened to provide for better comparability with the objectives and scope of Units 16 to 18. It advised this could be achieved by incorporating set themes into Unit 27. The themes would also provide a better opportunity for the development of resources to support teachers in the delivery of the Unit.

3. The Working Party has also advised that, dependent upon how the content is incorporated into schemes of work, there is a risk of overload in the delivery of Study Unit 18. It concluded that the Unit could be made more effective by terminating it at c1900 and by incorporating the study of Welsh and British twentieth century history more fully into Study Unit 27.

4. The details of the new Study Unit 27 recommended by the Working Party, entitled "Britain, Europe and the World c1900-c1960", are annexed. The Unit gives greater emphasis to Welsh and British history than the existing Unit and includes three broad themes: international conflict and co-operation; the emergence of new nations; and technological, social and cultural change. Pupils would be taught about some of the main influences linked to these which have shaped the world in which they live.

5. The Working Party has also drawn to my attention that, under the provisions of the History Order, pupils can study Unit 27 before or at the same time as Units 16, 17 or 18. I agree with their advice that this anomaly in the History Order be corrected.

6. I have accepted in full the Working Party's advice and propose to publish an Order to bring them into effect from September 1991. I therefore propose, subject to responses received to my proposals, to publish a draft Order to:

- change the period studied in Unit 18 from c1760-c1960 to c1760-c1900

- replace existing Study Unit 27 with a Unit entitled "Britain, Europe and the World c1900-c1960" as detailed in the Annex

- amend the General Introduction of the Key Stage 3 Programme of Study to reflect these changes and to make clear that Unit 27 must be studied after Unit 18

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit

BRITAIN, EUROPE AND THE WORLD C1900-C1960 KS3
STUDY UNIT 27

. . . . . .

Pupils should be introduced to aspects of the history of Wales, Britain and Europe in the 20th century in a world context. They should gain an understanding of some of the main political, economic and social influences which have shaped the world in which they live.

The focus of the unit should be on the following themes:

- **international conflict and co-operation**
- **the emergence of new nations**
- **technological, social and cultural change**

Pupils should be taught about:

* The global impact of war and the international search for peace, as illustrated by:

  either a. World War I and the League of Nations;
  or, b. World War II and the United Nations.

* The transition from European Empires, such as the British or French Empire, and the emergence of new nations, as illustrated by a particular example, *eg India, West Africa, Algeria or Indo-China*

* The impact of the transport revolution, especially in Wales and Britain

* The growth of the mass media and their impact on national and popular cultures, especially in Wales and Britain

---

histprop

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit

Y Swyddfa Gymreig
Rhan II
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Tŷ Glas
Llanishen
Caerdydd CF4 5WE

H431H067 WOED LH

Welsh Office
Phase II
Government Buildings
Tŷ Glas Road
Llanishen
Cardiff CF4 5WE

Telephone 0222 761456 (Switchboard) GTN code 1283
Ext:
Fax: GP2-0222 761249

Eich Cyf/Your ref

Ein Cyf/Our ref

Dyddiad/Date 7 Mai 1991

Annwyl Gyfaill

Y CWRICWLWM CENEDLAETHOL: YMGYNGHORI AR GYNIGION I DDIWYGIO'R GORCHYMYN ADDYSG (Y CWRICWLWM CENEDLAETHOL) (TARGEDAU CHYRHAEDDIAD A RHAGLENNI ASTUDIO MEWN HANES) (CYMRU) 1991

Heddiw, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei gynigion i ddiwygio'r Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Hanes) (Cymru) 1991 at ddibenion ymgynghori.

Cynhwysir manylion y cynigion, sy'n ymwneud â'r rhaglen astudio ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 yn y Gorchymyn, yn y ddogfen amgaeëdig ac fe'u cyhoeddir yn unol â darpariaethau Deddf Diwygio Addysg 1988. Mae honno'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ar y cynigion, ac ar ôl hynny bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn paratoi Gorchymyn drafft o dan Adran 4(2)(a) a (b) y Ddeddf. Drwy hyn mae'n gwahodd y sawl sy'n cael y llythyr hwn i gyflwyno tystiolaeth a sylwadau ar y cynigion.

Yn ogystal â Chyngor Cwricwlwm Cymru, mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn rhoi gwybod am ei gynigion ac yn ymgynghori ag amrywiaeth eang o fuddiannau addysg yng Nghymru, gan gynnwys: CBAC, AALl, cyrff sy'n cynrychioli athrawon, rhieni, llywodraethwyr a sefydliadau addysg bellach ac uwch a sefydliadau hyfforddi athrawon. Anfonir copïau o'r cynigion hefyd i bob ysgol yng Nghymru. Er nad ymgynghorir yn statudol ag ysgolion unigol, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn croesawu unrhyw sylwadau y maent hwy neu eraill am eu cyflwyno.

Dylid anfon yr holl sylwadau ac ymatebion i'r ymgynghori i Adran Cwricwlwm Ysgolion, Adran Addysg y Swyddfa Gymreig, Rhan II, Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF4 5WE i gyrraedd erbyn 10 Mehefin 1991 fan bellaf.

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit

H431H067 WOED LH

Arfer gyffredin yr adran yw trefnu bod copïau o gyflwyniadau ymatebwyr i bapurau ymgynghori ar gael i'r cyhoedd os daw cais. Ond os bydd ymatebwr yn nodi y dylid hepgor y cyfan neu ran o ateb o'r drefn hon, fe berchir y cais am gyfrinachedd.

Cyhoeddir y llythyr hwn a'r ddogfen sy'n cynnwys y cynigion ar yr un pryd yn Saesneg. Mae copïau pellach o'r cynigion ar gael oddi wrth Adran Addysg y Swyddfa Gymreig drwy wneud cais.

Yn gywir

L. L. Chang Kee

MRS L L CHANG KEE

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit

H431H067 WOED LH

RHAGAIR

Mae'r ddogfen "Hanes yn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymru)" (ISBN 0 11 701607 1) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1991, yn cynnwys targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio mewn Hanes sydd â grym statudol o dan y Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Hanes) (Cymru) 1991 (OS 1991/752). Cyfeirir at y Gorchymyn hwnnw isod fel y "Y Gorchymyn Hanes" yng nghynigion yr Ysgrifennydd Gwladol Cymru isod.

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn rhoi pŵer i Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud Gorchymyn i ddiwygio rhaglenni astudio'r ddogfen uchod. Cyn cyhoeddi drafft o'r Gorchymyn mae'n ofynnol iddo roi gwybod am ei gynigion i Gyngor Cwricwlwm Cymru ac i unrhyw bersonau eraill y cred y byddai'n ddymunol ymgynghori â hwy.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cynigion ffurfiol yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer diwygio'r Unedau Astudio o dan y teitl "Cymru ym Mhrydain Ddiwydiannol tua 1760 - tua 1960" (Uned 18) ac "Ewrop a'r byd tua 1900 - tua 1960" (Uned 27) yn y rhaglen astudio ar gyfer Hanes i ddisgyblion 11-14 oed (Cyfnod Allweddol 3).

Gellir atgynhyrchu darnau o'r ddogfen hon ar yr amod eich bod yn cydnabod y ffynhonnell.

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit

Y CYNIGION

1. Mewn ymateb i sylwadau a chyngor a gafwyd wrth ymgynghori ar y drafft o'r Gorchymyn Hanes, gwneuthum newidiadau yn Unedau Astudio 18 a 27 i gynnwys dimensiwn Prydeinig ac Ewropeaidd ar hanes yr 20fed ganrif yng Nghyfnod Allweddol 3. Ym mis Ebrill, gwahoddais gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Hanes dros Gymru, yr Athro R R Davies, i ffurfio gweithgor bach o'r cyn-aelodau i ystyried strwythur Uned 27 o'i chymharu â strwythur Unedau 16-18. Gwahoddwyd y Gweithgor hefyd i ystyried y cysylltiadau rhwng Unedau 18 a 27.

2. Daeth y Gweithgor i'r casgliad bod angen cryfhau strwythur Uned 27 i'w gwneud yn haws ei chymharu ag amcanion a chwmpas Unedau 16-18. Cynghorwyd y gellid sicrhau hynny drwy ymgorffori themâu penodedig yn Uned 27. Byddai'r themâu hefyd yn cynnig gwell cyfle i ddatblygu adnoddau i gefnogi athrawon wrth gyflwyno'r Uned.

3. Yn dibynnu sut y caiff y cynnwys ei ymgorffori mewn cynlluniau gwaith, dywed y Gweithgor hefyd fod perygl gorlwytho wrth gyflwyno Uned Astudio 18. Daeth i'r casgliad y gellid gwneud yr Uned yn fwy effeithiol drwy ddod â hi i ben tua 1900 a thrwy ymgorffori astudio hanes Cymru a Phrydain yn yr 20fed ganrif yn llawnach yn Uned Astudio 27.

4. Gwelir manylion yr Uned Astudio 27 newydd a argymhellir gan y Gweithgor, o dan y teitl "Prydain, Ewrop a'r Byd tua 1900 - tua 1960", yn yr atodiad. Mae'r Uned yn rhoi mwy o bwyslais ar hanes Cymru a Phrydain na'r Uned bresennol ac yn cynnwys 3 thema fras: gwrthdaro a chydweithredu rhyngwladol; creu cenhedloedd newydd; a newid technolegol, cymdeithasol a diwylliannol. Byddid yn dysgu disgyblion am rai o'r prif ddylanwadau sy'n gysylltiedig â'r rhain ac sydd wedi llunio'r byd y maent yn byw ynddo.

5. Mae'r Gweithgor hefyd wedi tynnu'm sylw at y ffaith, o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn Hanes, y gall disgyblion astudio Uned 27 cyn Unedau 16, 17 neu 18 neu ar yr un pryd â hwy. Yr wyf yn cytuno â'u cyngor y dylid cywiro'r anghysondeb hwn yn y Gorchymyn Hanes.

6. Yr wyf wedi derbyn yn llawn gyngor y Gweithgor ac yr wyf yn cynnig cyhoeddi Gorchymyn i'w rhoi ar waith o fis Medi 1991. Felly, yn ddarostyngedig i'r ymatebion i'm cynigion a ddaw i law, yr wyf yn cynnig cyhoeddi Gorchymyn drafft:

- i newid y cyfnod a astudir yn Uned 18 o tua 1760 - tua 1960 i tua 1760 - tua 1900

- i roi Uned o dan y teitl "Prydain, Ewrop a'r Byd tua 1900 - tua 1960" yn lle'r Uned Astudio 27 bresennol, yn unol â'r manylion a welir yn yr Atodiad

- i ddiwygio'r Cyflwyniad Cyffredinol i Raglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac i'w gwneud yn eglur bod rhaid astudio Uned 27 ar ôl Uned 18

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit

H431H067 WOED LH

PRYDAIN, EWROP A'R BYD
TUA 1900-TUA 1960 CA3
UNED ASTUDIO 27

Dylid cyflwyno disgyblion i agweddau ar hanes Cymru, Prydain ac Ewrop yn yr 20fed ganrif yng nghyd-destun y byd. Dylent gael dealltwriaeth o rai o'r prif ddylanwadau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol sydd wedi llunio'r byd y maent yn byw ynddo.

Dylai'r uned ganolbwyntio ar y themâu canlynol:

- gwrthdaro a chydweithredu rhyngwladol
- creu cenhedloedd newydd
- newid technegol, cymdeithasol a diwylliannol

Dylid addysgu disgyblion:

* am effaith fyd-eang rhyfel a'r ymdrech ryngwladol dros heddwch, fel y'i darlunnir gan:

  naill ai a. Y Rhyfel Byd Cyntaf a Chynghrair y Cenhedloedd;
  neu b. Yr Ail Ryfel Byd a'r Cenhedloedd Unedig.

* am ddiwedd yr Ymerodraethau Ewropeaidd, megis Ymerodraeth Prydain neu Ffrainc, a chreu cenhedloedd newydd, fel y'i darlunnir gan enghraifft arbennig, *e.e. India, Gorllewin Affrica, Algeria neu Indo-China*

* am effaith y chwyldro cludiant, yn arbennig yng Nghymru a Phrydain

* am dwf y cyfryngau torfol a'u heffaith ar ddiwylliannau cenedlaethol a phoblogaidd, yn arbennig yng Nghymru a Phrydain.

Printed image digitised by the University of Southampton Library Digitisation Unit